Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ymchwil gymdeithasol
Social research

Number:05/2013

www.cymru.gov.uk

# Gwerthusiad o Ail Adroddiad Interim y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd



# Gwerthusiad o Ail Adroddiad Interim y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd

**SQW**
**Graham Thom and Luke Delahunty**

**Ipsos MORI**
**Paul Harvey and Jon Ardill**

Eiddo'r ymchwilydd yw'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd farn Llywodraeth Cymru

I gael gwybodaeth bellach cysyllter â:
Janine Hale
Knowledge & Analytical Services
Welsh Government
Cathays Park Cardiff
CF10 3NQ
Tel: 029 2082 6539
Email: janine.hale@wales.gsi.gov.uk

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 2013
ISBN 978-0-7504-9248-5
© Hawlfraint y Goron 2013

## Crynodeb Gweithredol

Ym mis Awst 2010 penodwyd SQW, gyda chefnogaeth Ipsos MORI a'r Athro Geoff Lindsey o'r Ganolfan ar gyfer Datblygiad, Gwerthusiad ac Ymchwil Addysgol (CEDAR) ym Mhrifysgol Warwick, i gynnal gwerthusiad o'r model Astudiaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd (GICD). Mae'r ail adroddiad hwn yn cyflwyno'r casgliadau o ail flwyddyn y gwerthusiad (Medi 2011 hyd Medi 2012).

## Trefniadau cyflenwi, rheoli a llywodraethu

Mae maint y Timau Integredig Cymorth i Deuluoedd (TICD) yn amrywio dros y tri safle Cam 1, gyda 15 o bobl yn Safle 1, 10 yn Safle 2 a 12 yn Safle 3.

Ceir darlun cymysg o ran sefydlogrwydd TICD ar draws y safleoedd. Yn Safle 1, er bod aelodaeth TICD wedi sefydlogi ac wedi parhau'n sefydlog, bu lefelau uchel o salwch staff oherwydd straen. Mae Safle 2 wedi parhau i elwa o aelodaeth TICD sefydlog eleni. Mewn cyferbyniad, mae Safle 3 wedi dioddef lefelau uchel o drosiant staff a newid. Effeithiodd rhai materion ansicrwydd swyddi ar sefydlogrwydd yr TICD. Mae'r diffyg a'r anghysondeb o ran cyflenwad achosion hefyd wedi creu rhai anawsterau.

Ar draws y tri safle Cam 1 cafwyd rhai anawsterau mewn diffinio a gweithredu rôl y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol (CSW) yn effeithiol. Awgrymodd adborth bod y problemau yn aml yn gysylltiedig â hynafedd, lefel cyflog ac anghenion cefnogaeth neu'r hyn oedd yn ddisgwyliedig gan y CSW. Hefyd, roedd hi'n ymddangos bod y timau'n ansicr ynglŷn â'r ffordd orau i gael y gwerth ychwanegol o'r rôl CSW drwy'r ymchwil barhaus.

Yn gyffredinol, mae'r TICD wedi dod yn fwy cyfarwydd a hyderus o ran gweithredu'r GICD dros y 12 mis diwethaf. Teimlai'r staff eu bod wedi datblygu cymysgedd o sgiliau priodol sydd eu hangen i ddiwallu anghenion teuluoedd cymwys ac maent yn gefnogol i'r GICD.

Mae gwahanol arddulliau gweithio ac ymddygiadau staff TICD yn dod i'r amlwg ar draws y safleoedd. Mae strwythurau ffurfiol megis cyfarfodydd 'myfyrio' i annog trafod achosion fel tîm wedi gweithio'n eithaf da. Fodd bynnag, mewn un safle penodol cafwyd tystiolaeth o fwy o 'weithio annibynnol', a fydd yn creu problemau yn y dyfodol.

Ar gyfartaledd mae'r staff yn treulio 40% neu lai o'u hamser mewn cysylltiad uniongyrchol â theuluoedd achos. Gan hyd yn oed ganiatáu ar gyfer gweithgareddau allweddol eraill megis hyfforddiant, cyfarfodydd tîm, ymgysylltu

mewn gwasanaeth ehangach a theithio ac ati, awgryma hyn bod gallu ymhlith gweithwyr TICD i dderbyn achosion ychwanegol.

Er bod, ar y cyfan, ymrwymiad craidd cryf gan bartneriaid i'r Byrddau GICD, mae un neu ddau fwlch yn parhau i fod - yn amlwg gyda'r Heddlu ac Iechyd Meddwl. Yn gyffredinol, mae lefelau presenoldeb wedi bod yn gymysg ac maent efallai'n disgyn.

Mae'r Grwpiau Gweithredol/Gweithredu/Llywio wedi chwarae rhan bwysig mewn rhannu gwybodaeth, codi ymwybyddiaeth o'r GICD a mynd i'r afael â materion proses weithredu pob dydd ond efallai y bydd angen ailgyfeirio peth o'r gweithgaredd hwn i'r Byrddau wrth i GICD ddatblygu ymhellach a chael ei brif-ffrydio.

Mae peth ansicrwydd ynglŷn â gwerth cytundebau Adran 58, er yr ystyriwyd y broses o'u datblygu yn un ddefnyddiol.

## Niferoedd y broses GICD

Er bod staff TICD unigol yn gallu disgrifio'n fras y mathau o deuluoedd a fyddai'n fwyaf tebyg o elwa o GICD, roedd hyn gyda grŵp culach nag a ddisgrifiwyd yng nghanllawiau statudol yr GICD. Felly, tybiwyd y byddai'r canllawiau ynglŷn â theuluoedd cymwys yn elwa o gael eu haddasu a'u mireinio ymhellach. Yn benodol, awgrymodd yr adborth i'r gwerthuswyr bod angen gwneud gwaith ychwanegol er mwyn egluro'n glir pa fathau o deuluoedd y credir fyddai'n elwa fwyaf o gefnogaeth GICD. Yn bwysig, bydd angen i'r diffiniad ganolbwyntio ar ymateboldeb posibl y teulu a'u parodrwydd i newid.

Y farn gyffredinol ymhlith staff TICD ac aelodau Bwrdd oedd bod ansawdd yr atgyfeiriadau wedi gwella wrth i wybodaeth y gweithwyr cymdeithasol am GICD gynyddu ac wrth i'r staff TICD ddod yn fwy profiadol. Fodd bynnag, er gwaethaf buddsoddi amser ac ymdrech sylweddol i geisio codi ymwybyddiaeth o GICD ymhlith timau gweithwyr cymdeithasol, roedd y niferoedd yn ystod y flwyddyn yn is nag a ddisgwylid. Gwnaed cyfanswm o 228 atgyfeiriad i GICD ar draws y tri safle Cam 1 yn 2011/12, sy'n uwch na'r 210 atgyfeiriad a gofnodwyd ym mlwyddyn gyntaf GICD ond yn dal yn is na'r disgwyl. Aeth 174 atgyfeiriad i'r cam asesu GICD cychwynnol, ac roedd 26 o'r achosion hyn yn ail-atgyfeiriadau.

Nifer cymharol fach o deuluoedd cymwys oedd yn cwblhau Cam 1 (4-6 wythnos o gefnogaeth ddwys) GICD y llynedd. Ar draws pob un o'r tri safle y cyfanswm oedd 85 o gymharu ag 89 ym Mlwyddyn 1. Yn rhannol mae'r dirywiad bach hwn o ganlyniad i beidio cofnodi teuluoedd a gefnogir am lai na'r cyfnod Cam 1 llawn, ond hyd yn oed wedyn mae'r diffyg niferoedd cyffredinol yn amlwg. Er enghraifft, yn Safleoedd 1 a 3 (nid oes data ar gael ar gyfer Safle 2) derbyniodd 41 o'r

achosion a atgyfeiriwyd gyngor drwy GICD heb dderbyn ymgynghoriad llawn na mynd ymlaen i'r asesiad 72 awr. Wrth symud ymlaen, teimla'r gwerthuswyr ei bod yn bwysig bod y tri safle yn cofnodi'n gywir nifer yr achosion lle rhoddir 'cyngor yn unig' a lle bydd ymgynghoriad yn digwydd, yn ogystal â'r rheiny sy'n symud ymlaen yn ffurfiol i'r asesiad 72 awr.

Eglurodd nifer o deuluoedd eu bod wedi gwneud dewis penodol i gofrestru ar gyfer GICD. Roeddent wedi derbyn eu bod wedi cyrraedd 'y gwaelod' a'u bod angen cymorth. Roedd teuluoedd eraill yn ystyried cymryd rhan yn yr GICD fel ffordd o ddangos eu bod yn barod i 'gydymffurfio' a gwneud beth a ofynnwyd ganddynt.

Golygodd dwysedd GICD bod teuluoedd yn ei ystyried yn ymrwymiad sylweddol. Roedd rhai teuluoedd wedi synnu gymaint o waith yr oedd yn rhaid iddynt hwy eu hunain ei wneud fel rhan o'r Rhaglen. Awgrymodd teuluoedd a TICD y byddai proses drosglwyddo neu ymsefydlu well, gan ddefnyddio gweithiwr cymdeithasol cyfarwydd, efallai'n gymorth i gynyddu recriwtio i GICD.

## Gweithrediad GICD

Dosberthir achosion atgyfeirio GICD ar draws aelodau TICD yn seiliedig ar allu yn hytrach nag arbenigedd proffesiynol. Mae'r dull hwn yn agored i risgiau posibl, er bod y rheiny hyd yma wedi eu cydnabod dim ond mewn nifer fechan iawn o achosion, bod rhai materion tanategol yn cael eu methu. Cydnabyddir y byddai'r risgiau hyn, i ryw raddau, bob amser yn bodoli waeth sut y byddai achosion yn cael eu dyrannu, ond byddant o bosibl yn cael eu lleihau pe bai pob safle yn gweithredu lefelau uwch o weithio tîm.

Mae tystiolaeth o'r tri safle cyntaf yn dangos y bu, dros y 12 mis diwethaf, rhywfaint o amrywiaeth o ran sut y cafodd yr GICD ei ddarparu, rhwng y safleoedd a rhwng achosion unigol ym mhob safle. Er enghraifft, dywedodd staff TICD bod hyd Cam 1 yn amrywio yn dibynnu at ymateboldeb neu faint y teulu. O gofio'r hyblygrwydd a gynlluniwyd i mewn i'r model o'r cychwyn cyntaf disgwylir gweld yr amrywiaeth cynyddol hwn ac mae i'w groesawu, cyn belled bod y gwaith cyflenwi lleol yn parhau o fewn paramedrau cyffredinol y model.

Awgrymodd adborth gan bob un o'r tri safle Cam 1 bod peth pryder ymhlith staff TICD bod y trosglwyddo o Gam 1 i Gam 2 yn rhy anodd i rai teuluoedd. Awgrymodd un Rheolwr TICD y dylid ystyried datblygu cam ychwanegol yn y broses GICD, er efallai na fydd hyn yn angenrheidiol gan na fwriadwyd i'r model GICD fod yn un anhyblyg.

Dywedodd rhai teuluoedd eu bod wedi teimlo'n nerfus ynglŷn â'r rhagolygon o leihau lefel y gefnogaeth GICD wrth iddynt symud o Gam 1 i Gam 2. Roedd bod

â rhif ffôn eu gweithiwr TICD yn rhoi sicrwydd iddynt ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr.

Mae'r dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr ail flwyddyn o weithgaredd TICD yn awgrymu bod y Rhaglen, mewn mannau, yn dechrau cael dylanwad ar ddarpariaeth gwasanaeth ehangach. Roedd tystiolaeth ymhlith staff ar draws y tri safle bod cefnogaeth gref a chyffredinol ar gyfer GICD fel model cyflenwi, yn cynnwys yr offer a'r dechnoleg arloesol a ddefnyddir.

Dywedodd y teuluoedd eu bod yn hoff iawn o'r gweithwyr TICD. Dywedasant fod eu hymarferydd TICD cyntaf yn aml yn dod yn 'rhan o'r teulu' - gan ennill ymddiriedaeth holl aelodau'r teulu. Eglurodd rhai aelodau teulu eu bod yn teimlo eu bod wedi datblygu gwir gyfeillgarwch gyda'u gweithiwr TICD cyntaf.

## Canlyniadau ac effeithiau GICD

Mae'n dal yn rhy gynnar i ddod i unrhyw ganlyniadau cadarn ynglŷn ag effaith hirdymor yr GICD ar ganlyniadau teulu a chynaliadwyedd neu ddyfalbarhad effeithiau o'r fath. Fodd bynnag, mae'r data monitro neu olrhain o'r safleoedd yn awgrymu bod y llwybrau cadarnhaol cyffredinol ar y cyfan yn dal i gael eu cyflawni gan y mwyafrif o'r teuluoedd sy'n cyfranogi (er yn seiliedig ar niferoedd cymharol fach). Mae data o Safle 1 yn dangos bod 21, o'r 31 achos a dderbyniwyd ar Gam 1 yr GICD, wedi cwblhau'r cam hwn o'r broses. Mae data tebyg o Safle 3 yn dangos bod 23 achos, o'r 34 achos a dderbyniwyd ar Gam 1, wedi eu cwblhau.

Mae data monitro yn awgrymu bod gwelliant mawr yn digwydd rhwng dechrau a diwedd Cam 1. Mae cam nesaf yr ymyrraeth hyd yr adolygiad chwe mis wedi ei nodweddu gan welliant mwy graddol o ran gweithrediad teulu. Rhwng yr adolygiad chwe mis a'r adolygiad terfynol wedi 12 mis gwelir symudiad cadarnhaol sylweddol arall.

Nododd ymgynghoreion nifer o enghreifftiau lle mae'r ymyrraeth wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol o ran helpu aelodau teulu gyda chamddefnydd sylweddau a mynd i'r afael â materion cymhleth ehangach wrth iddynt geisio gweddnewid eu bywydau.

Amlygodd trafodaethau ehangach gyda'r tri TICD set ehangach o ffactorau a arweiniodd at ganlyniadau cadarnhaol. Er ei bod hi'n anodd cyffredinoli, adroddwyd ei bod yn ymddangos bod GICD yn cyflawni'r effaith mwyaf i'r teuluoedd hynny y gellir eu nodweddu fel rhai 'newydd' i'r system neu 'deuluoedd ymyrraeth gynnar'.

Roedd mwyafrif y teuluoedd a holwyd yn teimlo bod y rhaglen GICD wedi effeithio'n gadarnhaol iawn ar y teulu. Er y gellir egluro hyn yn rhannol drwy'r

detholiad sampl, sef mai'r teuluoedd hynny a oedd wedi elwa fwyaf oedd y mwyaf tebygol i ymgysylltu â'r broses werthuso, mae'n rhoi tawelwch meddwl ac yn ddarlun o'r model yn gweithio mewn rhai teuluoedd.

Fodd bynnag, nid oedd pob teulu a holwyd yn teimlo eu bod wedi elwa gan GICD. Cafodd tri theulu (allan o 23) brofiad negyddol o'r Rhaglen. Cafodd eraill brofiadau mwy cadarnhaol ond roeddent yn credu mai dim ond ychydig oedd yr GICD wedi ei wneud iddynt yn y tymor hwy.

## Materion i'w hystyried

Mae cyfres o faterion wedi dod i'r amlwg o ail flwyddyn gwerthusiad yr GICD. Cyflwynir y rhain yn y tabl isod er mwyn eu hystyried.

| | Mater | Cyfrifoldeb arweiniol |
|---|---|---|
| 1. | Dylai Byrddau GICD adolygu lefelau'r niferoedd o fewn eu timau a gosod targedau blynyddol clir ar gyfer nifer yr atgyfeiriadau ar gyfer eu TICD yn seiliedig ar allu ac angen lleol. Dylid olrhain cynnydd yn erbyn y targed hwn bob chwarter blwyddyn. | Byrddau GICD yn amodol ar gytundeb Llywodraeth Cymru |
| 2. | Lle bo amrywioldeb a phresenoldeb isel ar Fyrddau GICD, dylai'r Byrddau perthnasol ystyried pam fod presenoldeb yn edwino a chymryd camau i dynnu aelodau allweddol yn ôl i mewn. | Byrddau GICD |
| 3. | Dylai pob TICD sydd newydd ei sefydlu sicrhau ei fod yn buddsoddi digon o amser, ymdrech ac egni i feithrin perthynas a chodi ymwybyddiaeth o GICD er mwyn cael llif priodol o atgyfeiriadau addas ym *mlwyddyn gyntaf* eu gweithredu; tra dylai TICD sy'n bodoli gynnal lefelau ymwybyddiaeth GICD er mwyn sicrhau bod lefelau cynaledig o atgyfeiriadau priodol yn digwydd. | Byrddau GICD ac TICD |
| 4. | Dylai Byrddau GICD gael y dasg o sicrhau bod fframweithiau monitro a gwerthuso effeithiol yn cael eu sefydlu fel y gellir canfod effeithiau tymor hwy y ddarpariaeth GICD ar lefel leol ac y gellir dosbarthu'r canfyddiadau yn eang. Dylid defnyddio'r rhain i lywio gweithgaredd GICD a darpariaeth gwasanaethau ehangach yn y dyfodol. | Byrddau GICD |
| 5. | Wrth ddiweddaru canllawiau statudol ar GICD, dylid ystyried rhoi rhagor o fanylion ynglŷn â chymhwysedd/teuluoedd targed ar gyfer GICD (er mwyn cefnogi ymhellach y gwaith o hyrwyddo'r gwasanaeth yn lleol); a rôl y Gweithiwr Cymdeithasol Ymgynghorol er mwyn sicrhau y ceir y gwerth ychwanegol mwyaf o'r rôl. Bwriedir i'r model GICD fod yn hyblyg. Dylid cadw gallu pob safle i deilwra a siapio'r model, fel ei fod yn gallu ymateb i angen lleol. Felly, mae'n bwysig gwneud pob safle yn ymwybodol bod sgôp o fewn y model i ganiatáu i'r ddarpariaeth gael ei theilwra'n ddigonol er mwyn diwallu'n effeithiol anghenion teuluoedd unigol. | Llywodraeth Cymru |
| 6. | Dylid rhoi ystyriaeth yn lleol i beth ellid ei wneud i gefnogi teuluoedd sydd ddim yn barod neu sydd heb gymhelliant digonol i ymgysylltu mewn GICD. | Swyddogion Arweiniol GICD<br>Byrddau GICD |
| 7. | Mae angen i bob TICD fod yn ofalus i gynnal gweithio a myfyrio fel tîm ar sail gydweithredol er mwyn sicrhau darpariaeth o safon uchel ar gyfer y model. Dylai'r Byrddau GICD a'r Rheolwyr TICD sicrhau bod diwylliant cryf o weithio cydweithredol a rhyngweithiad staff gydag TICD. Dylai hyn fwydo i'r prosesau gwerthuso TICD unigol. | Byrddau GICD a Swyddogion Arweiniol |
| 8. | Bydd TICD angen mynediad at syniadau ac arfer presennol ar draws y meysydd o ba rai y daw aelodau'r tîm. Mae'n debyg y gwneir hyn orau gan gynlluniau datblygu unigol staff, yn cynnwys amser iddynt | Rheolwyr TICD, staff a chyrff proffesiynol/cyn-gyflogwyr |

| Mater | | Cyfrifoldeb arweiniol |
|---|---|---|
| | gynnal ac adeiladu eu gwybodaeth, gyda chefnogaeth gan y Rheolwr TICD a'u cyn-gyflogwyr. | |
| 9. | Mae angen cymryd gofal gyda mannau trosglwyddo o fewn y model. Bydd hyn yn cynorthwyo i sicrhau bod teuluoedd yn cael eu cyflwyno'n iawn i'r gweithiwr GICD ac yn cael sesiwn 'ymsefydlu' ar ddechrau'r broses, ac yna symud yn ôl yn llyfn i weithio gyda'u gweithiwr cymdeithasol (yn absenoldeb mewnbwn GICD dwys). Yn yr un modd, bydd hefyd angen rheoli'n ofalus y cyfeirio a'r atgyfeirio i ddarparwyr gwasanaeth ehangach er mwyn lleihau unrhyw effeithiau anffafriol ar y teulu. | Staff TICD a gweithwyr cymdeithasol |

Ffynhonnell: SQW 2013